



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**08456 000 813**

## Adolygiad Prosiect Safle Ffocws

Defnydd cyfrifol o wrthfotig mewn gwartheg llaeth ar Fferm Goldsland, Gwenfo

Paratowyd gan:-

Helen Ovens/Loree Jones

ADAS

Uned 10D

Parc Gwyddoniaeth Cefn Llan

Aberystwyth

SY23 3AH

Ffôn: 01974 847004

E-bost: [helen.ovens@adas.co.uk](mailto:helen.ovens@adas.co.uk)

Dyddiad: Awst 2018



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
**European Agricultural Fund for  
Rural Development:**  
Europe Investing in Rural Areas



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

## Cynnwys

<b>1</b>	<b>Crynodeb .....</b>	<b>1</b>
1.1	<i>Cefndir y prosiect.....</i>	1
1.2	<i>Safbwynt y ffermwr am y prosiect.....</i>	2
1.3	<i>Casgliadau'r Prosiect .....</i>	3
1.3.1	<i>Adolygiad o'r defnydd o wrthfotigau ar Fferm Goldsland – crynodeb.....</i>	3
1.3.2	<i>Pwyntiau dysgu perfformiad ar draws y rhai yn y Grŵp Fferm Ffocws a gymerodd ran .....</i>	3
1.4	<i>Pwyntiau i'w cofio eraill i'r diwydiant.....</i>	4
1.4.1	<i>Sut mae Fferm Goldsland yn cymharu â'r diwydiant yn ehangach?.....</i>	4
1.4.2	<i>Osgoi'r 'angen i drin' trwy ganolbwyntio ar leihau'r gyfradd o achosion mastitis clinigol newydd sy'n deillio o'r cyfnod llaetha yn yr haf a'r hydref .....</i>	4
1.4.3	<i>Lleihau defnydd diangen o wrthfotigau trwy ddefnyddio dull trin buchod cloff .....</i>	4
1.4.4	<i>Ystyried symud i therapi buchod sych dethol (SDCT) gyda selwyr tethi.....</i>	5
<b>2</b>	<b>Adolygiad o'r Prosiect .....</b>	<b>5</b>
2.1	<i>Nod y prosiect:.....</i>	5
2.2	<i>Dull.....</i>	5
2.3	<i>Canlyniadau.....</i>	6
2.4	<i>Dadansoddiad SWOT.....</i>	7
2.5	<i>Cysoni a nodau strategol y sector.....</i>	8
2.5.1	<i>Amcanion a osodwyd gan Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru:.....</i>	8
2.5.2	<i>Cyd-fynd â blaenoriaethau'r Tasglu Targedau RUMA .....</i>	8
<b>3</b>	<b>Effaith ar y diwydiant.....</b>	<b>8</b>
3.1	<i>Effaith ar fusnes unigol.....</i>	8
3.2	<i>Effaith ar y diwydiant yn ehangach.....</i>	8
3.3	<i>Effaith ar themâu trawsbynciol a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru .....</i>	9
3.3.1	<i>Newid Hinsawdd.....</i>	9
3.3.2	<i>Iechyd a Lles Anifeiliaid (AHW).....</i>	9
3.3.3	<i>Cenedlaethau'r Dyfodol.....</i>	9
3.3.4	<i>Taclo Tlodi .....</i>	9

# 1 Crynodeb

## 1.1 Cefndir y prosiect

Ar hyn o bryd mae'n gyfreithlon yn yr UE i ffermwyr llaeth ddefnyddio gwrthfotig yn gyson, a'r rheswm mwyaf cyffredin yw rheoli/atal mastitis yn y fuches. Defnyddir gwrthfotigau yn aml ar draws y fuches laeth i gyd yn hytrach nag ar fuchod unigol, i atal mastitis yn ystod y cyfnod 'sych'<sup>1</sup>. Gyda'r pryder diweddar am effeithiolrwydd gwrthfotig yn y gadwyn fwyd ddynol, mae mwy o ymdrech yn cael ei wneud i gadw effeithiolrwydd y gwrthfotigau sydd gennym ar gael ar hyn o bryd i ofalu am iechyd anifeiliaid a phobl. Amlygodd Comisiwn O'Neil<sup>2</sup> yr angen i warchod y defnydd o wrthfotigau at y dyfodol, a phwysleisio'r angen am feincnodi gwrthfotig yn y diwydiant amaeth.

Bwriad y prosiect hwn oedd annog defnydd cyfrifol o wrthfotigau ar ffermydd llaeth Cymru, gan hefyd wella iechyd a lles, a lleihau gorbennion milfeddygol i'r ffermwyr llaeth sy'n cymryd rhan.

Y Fferm Ffocws a ddewiswyd oedd Goldsland, sy'n cael ei ffermio gan Abi Reader a'i thad. Mae Abi yn gwerthfawrogi bod angen gwneud y defnydd gorau o wrthfotigau yn ei buches laeth, o ran arbed costau ac i sicrhau safonau uchel o ran diogelwch bwyd a sicrwydd. Mae Abi yn weithgar iawn fel cynrychiolydd i'r diwydiant, yn aelod o'r NFU, ac yn un a gymerodd ran yn Academi Amaeth Cyswllt Ffermio, yn Ffarmwraig y Flwyddyn yn 2017, ac yn un o eiriolwyr y cynllun Sul Fferm Agored. Oherwydd ei phroffil yn y diwydiant gall ei gwaith prosiect Fferm Ffocws gael ei rannu a'i ddsbarthu yn effeithiol trwy'r sector ac ar draws Cymru, gan gynnig sylfaen ar gyfer protocol i wneud y defnydd gorau o wrthfotigau i'w ddefnyddio ar ffermydd eraill.

Gyda chefnogaeth gref Abi, fel y ffarmwraig safle arddangos, casglodd y prosiect ddata am ddefnyddio o wrthfotig gan nifer o ffermwyr ac amlygodd ble a phryd y mae gwrthfotigau yn cael eu defnyddio ar y ffermydd hynny. Trwy feincnodi cafwyd cyfle i drafod dewisiadau eraill a strategaethau i leihau'r defnyddio o wrthfotig, gyda'r wybodaeth yn cael ei darparu a'i thrafod gan y grŵp ffermwyr ar y mathau o wrthfotigau a sut i wella eu heffeithlonrwydd. Dylai'r gwaith hwn helpu i ymestyn oes y gwrthfotigau presennol sydd mewn perygl o fynd yn llai effeithiol oherwydd gorddefnyddio a'r cynnydd mewn gwrthedd.

### Amcanion allweddol y Prosiect Fferm Ffocws:

1. Addysgu am y defnyddio o wrthfotigau: trwy ddysgu sut i leihau unrhyw ddsosau diangen a sicrhau bod defnyddio cyfrifol ar wrthfotigau ar ffermydd llaeth yng Nghymru
2. Casglu data am y pryniannau cyffuriau bob blwyddyn, bydd hyn yn amlygu ble a phryd y mae gwrthfotigau yn cael eu defnyddio ar y ffermydd penodol
3. Annog defnyddio meincnodi i gael dewisiadau a strategaethau eraill i leihau'r defnyddio o wrthfotigau.
4. Addysgu am ddiogelu gwrthficrobau sydd mewn perygl i genedlaethau'r dyfodol allu eu defnyddio

Gyda chefnogaeth James Breen o Quality Milk Management Services Ltd, bu Abi a'r ffermwyr eraill oedd yn cymryd rhan yn gweithio i asesu eu defnyddio presennol, a meincnodi eu defnyddio a'u targedau. Cymharwyd y rhain wedyn â'r rhai y cytunodd y diwydiant llaeth yn genedlaethol arnynt (fel rhan o'r

<sup>1</sup> Alliance to save our antibiotics. 2016 *Antibiotic use in the UK dairy sector*. Alliance to save our antibiotics. Ar gael o: [www.saveourantibiotics.org/media/1762/antibiotic-use-in-the-uk-dairy-sector.pdf](http://www.saveourantibiotics.org/media/1762/antibiotic-use-in-the-uk-dairy-sector.pdf). (Agorwyd 13 Awst 2018).

<sup>2</sup> <http://bsac.org.uk/securing-new-drugs-for-future-generations/>

Cynllun Sector Llaeth i leihau gwrthficrobau), fel yr amlinellir isod. Trafodwyd codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn, a thaith Abi hyd yn hyn mewn diwrnod agored ym mis Awst 2018.

## Dairy Sector Targets

	Subject	Baseline Figure	Targets 2020	% Change
1	HP-CIA injectables (mg/PCU)	1.075*	0.538	-50%
2	HP-CIA intra-mammary use (DCDVet)	0.332*	0.166	-50%
3	Intra-mammary tubes – dry cow (DCDVet)	0.842*	0.674	-20%
4	Intra-mammary tubes – lactating cow (DCDVet)	0.808*	0.727	-10%
5	Sealant tube usage (average number of courses per dairy cow)	0.5*	0.7	+40%
6	Total usage (mg/PCU)	26.2**	21.0	-20%

\* Measured using 2015 UK sales data \*\* Measured using FarmVet Systems survey



### 1.2 Safbwynt y ffermwr am y prosiect

Bu'r prosiect yn help mawr i Abi, y ffarmwraig Ffocws, i symud tuag at drefn wedi ei thargedu o ddefnyddio gwrthfotig, ynghyd â gwell rheolaeth ar y fuches. Trwy weithio'n glos gyda'i phractis milfeddygol mae Abi wedi gallu parhau i leihau ei defnydd o wrthfotig ymhellach eto, heb gael effaith ar les yr anifeiliaid.

Erbyn hyn mae Abi yn gweithredu cynllun rheoli mastitis, ac ar hyn o bryd mae'n newid arferion y fferm i helpu i leihau'r achosion o fastitis, fel rhoi cerrig yn yr adwyon ac o gwmpas y cafnau dŵr. Er y gall gweithredu arferion o'r fath fod yn gostus yn y tymor byr, teimla Abi y byddant yn dwyn budd ariannol i'r busnes yn y tymor hir. Bydd arbedion ariannol yn cael eu gwneud o ran costau cyffuriau a gostyngiad yn y nifer o anifeiliaid a gollir, yn ogystal â chynyddu'r cynhyrchiant llaeth.

Ar hyn o bryd mae Abi yn codi sied fuchod newydd ar y fferm, sy'n cael ei hawyru yn well a ddylai helpu iechyd y fuches. Ar ôl i'r sied hon gael ei chodi mae Abi yn gobeithio gwneud gwelliannau i'w sied fagu lloeau, gan gynnwys gwell awyru i gael aer glanach i leihau'r niwmonia a geir ar y fferm.

Yn gyffredinol mae'r prosiect wedi bod yn anhygoel o lwyddiannus yn codi ymwybyddiaeth am y defnydd o wrthfotigau ac yn cynnig atebion ymarferol ar draws yr holl grwpiau o ffermwyr a gymerodd ran. Mae'r holl ffermwyr wedi cael gwybodaeth am y ffyrdd y gallant leihau/wneud y gorau o'r defnydd o wrthfotigau a chamau i wella iechyd a lles yr holl wartheg yn gyffredinol.

### 1.3 Casgliadau'r Prosiect

Roedd mwyafrif y casgliadau a roddwyd gan Cyswllt Ffermio a James Breen yn ymwneud â'r gwaith a wnaed ar fferm Abi, gyda'r ffermwyr llaeth eraill yn dysgu ac yn gweithio gyda hi i ddeall yn well y materion yn ymwneud â lleihau/gwneud y defnydd gorau o wrthfotigau dro amser.

Mae'r dull grŵp o gasglu data, profi a chyngor technegol yn rhan o'r gwasanaeth trosglwyddo gwybodaeth sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio. Mae ffermwyr yn gallu cael ystod debyg o wasanaethau i'r grwpiau sy'n cymryd rhan yn y prosiect, gyda chyllid o 80% o leiaf ar gael. Gwasanaethau eraill gan Cyswllt Ffermio a allai fod yn berthnasol yw cynllun rheoli maethiad/samplo pridd, cyngor ar faethiad a chynllunio busnes.

#### 1.3.1 Adolygiad o'r defnydd o wrthfotigau ar Fferm Goldsland – crynodeb.

- Am y chwe blynedd diwethaf, mae'r defnydd o wrthfotigau ar y fferm fel y mae'n cael ei fesur yn ôl mg i bob Uned Poblogaeth Wedi'i Chywiro (PCU) yn isel yn gyffredinol ar lai na 15mg/PCU, ar wahân i 2014-15 oedd yn ddwbl hynny.
- Ar gyfer 2016-17, y defnydd cyffredinol oedd 11mg/PCU, gyda 1.7 dos dyddiol – sydd yn isel iawn.
- Roedd y defnydd o'r gwrthfotig macrolid 'Tylan' yn cyfateb i bron i 4mg ac felly yn draean o'r defnydd yn 2016-17.
- Dylai'r fuches hon adolygu'r defnydd o 'Tylan' ar gyfer buchod cloff heb gael diagnosis, ac ystyried deunydd gwrthlidiol trwy chwistrell YN EI LE cyn diagnosis a thrafodaeth gyda milfeddyg y fferm.
- Ychydig iawn o le i wella sydd ar wahân i hyn, ac mae angen i ni fod yn ofalus nad ydym yn stopio defnyddio gwrthfotig pan fydd yn bwysig rhoi triniaeth.
- Yn benodol, mae'r gwerthiant therapi buchod sych a gofnodwyd yn isel iawn, ac o ystyried cyfrif celloedd y fuches, efallai y bydd angen ailystyried y dull o sychu buchod lle mae dim ond 20-30% o'r buchod wedi cael therapi buchod sych gwrthfotig.
- Yn olaf, dim ond 96 o diwbiau mastitis a brynwyd, a fyddai'n awgrymu bod mastitis clinigol ddim yn cael ei gofnodi a/neu ddim yn cael ei drin, gan y byddai hyn yn cyfateb i ddim ond 8 achos a 6 tiwb yn cael ei ddefnyddio i bob achos.

#### 1.3.2 Pwyntiau dysgu perfformiad ar draws y rhai yn y Grŵp Fferm Ffocws a gymerodd ran Mae rhai buchesi yn defnyddio mwy yn sylweddol na tharged cenedlaethol 2020 o 21mg/PCU, gyda rheoli mastitis yn ffactor allweddol yn y penderfyniad

Cymysg oedd y defnydd o wrthfotigau ar draws y tri grŵp o ffermwyr. Er bod grŵp Casnewydd o dan y targed a fwriadwyd ar gyfer 2020, roedd grŵp Trefynwy drosto. Daeth y canlyniadau i'r casgliad bod llawer o'r dosau dyddiol ar draws rhai grwpiau yn sylweddol uwch na'r targed a gyhoeddwyd o 21mg/PCU. Er enghraifft, yn grŵp Casnewydd gwelwyd bod 5 allan o 13 o fuchesi yn defnyddio mwy na 20mg, fel yr oedd grŵp y Fro lle'r oedd 3 allan o 13 o fuchesi yn dosio mwy na 30mg/PCU. Roedd y dosau dyddiol cyfartalog ar draws y grwpiau yn uwch na'r argymhelliad a gwelwyd bod rhai buchesi yn defnyddio mwy nag un dos ddyddiol, er nad oeddent yn defnyddio llawer o mg ym mhob achos. Gwelwyd bod 8 allan o 13 o fuchesi yn defnyddio mwy na 3 dos ddyddiol, tra'r oedd 8 allan o 13 o fuchesi mewn grŵp arall yn defnyddio mwy na 6 dos ddyddiol.

## 1.4 Pwyntiau eraill i'w cofio i'r diwydiant

### 1.4.1 Sut mae Fferm Goldsland yn cymharu â'r diwydiant yn ehangach?

Mae'r ymateb i adroddiadau gan y llywodraeth yn golygu bod angen i'r sector llaeth edrych ar y defnydd penodol o wrthfotigau, i'r gader/pwrs (buchod sych a buchod yn llaetha) a defnydd trwy chwistrell. Y targed o ran mg/PCU yw 21 erbyn y flwyddyn 2020. Mae'r defnydd o wrthfotigau mewn buchesi llaeth yn y Deyrnas Unedig yn gymharol isel, gyda buches arferol, mewn astudiaeth ddiweddar, yn defnyddio 16mg/PCU a 4 dos ddyddiol. Mae'r defnydd o chwistrell, bath traed gwrthfotig ac amrywiol driniaethau i loeau yn ymddangos fel petaent yn gyrru'r rhai sydd yn defnyddio llawer wrth ei fesur yn ôl mg/PCU. Ar hyn o bryd, felly, mae fferm Goldsland yn y 25% gorau o fuchesi o ran mg/PCU a dosau dyddiol, ond fel y soniwyd yn gynharach mae meysydd diddorol eto i'w hadolygu

Ar hyn o bryd mae ~20% o fuches Goldsland yn >200,000 cell/ml – gan adlewyrchu rheolaeth ddigonol ar heintiad isglinigol yn gyffredinol. Ond, mae'r fuches hon yn dueddol o osgoi cofnodi llaeth rhai buchod 'problemus' sydd â mastitis, gan arwain at niferoedd amrywiol o fuchod 'absennol' a pheth tan-gofnodi tebygol ar wir amlygrwydd heintiadau. Ni fydd fferm Goldsland yn anarferol yn hyn o beth, y cyngor yw y bydd asesiad o'r fuches gyfan yn rhoi darlun mwy cywir i seilio penderfyniadau rheoli arno.

Roedd y gyfradd o Wella Cyfnod Sych (h.y. buchod oedd yn >200,000 cell/ml mewn o leiaf un o'r cofnodion cyn y cyfnod sychu, ond sydd <200,000 cell/ml yn y cofnod godro cyntaf yn y llaethiad dilynol) yn ddim ond 68% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ddiwethaf – dan y targed cenedlaethol o 85%. Gall cyfradd wella isel adlewyrchu rhywfaint o heintiad 'parhaol' (a diffyg triniaeth buchod sych gwrthfotig mewn rhai buchod?) a/neu ail-heintio o'r amgylchedd.

Mae'r olaf yn fwy cyffredin yn y rhan fwyaf o fuchesi, ac yn y fuches benodol hon, mae'r gyfradd gwella yn y cyfnod sych yn dymhorol ac yn gwaethygu yn yr haf, gan wneud ail-heintio o'r amgylchedd yn esboniad mwyaf tebygol yn y rhan fwyaf o achosion.

Ond, mewn achosion eraill mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod therapi buchod sych gwrthfotig yn benderfyniad rhesymol i fuchod sy'n debygol o fod wedi eu heintio ar ddiwedd y llaethiad, ac mae hyn yn parhau yn gonglfaen i reoli mastitis.

Yn y pen draw, gyda 21% o'r buchod yn lloea gyda chyfrif celloedd uchel, y prif yrrwr ar gyfer y CYFRIF CELLOEDD yn y fuches hon yw'r cyfnod sych, a bydd penderfyniadau rhesymol am ddefnyddio therapi buchod sych gwrthfotig A rheoli buchod sych yn y padogau yn bwysig.

### 1.4.2 Osgoïr 'angen i drin' trwy ganolbwyntio ar leihau'r gyfradd o achosion mastitis clinigol newydd sy'n deillio o'r cyfnod llaetha yn yr haf a'r hydref

Dylai buchod sy'n llaetha gael eu rheoli yn ôl hynny, mewn padogau er enghraifft. Dylai buchod sy'n llaetha gael eu cadw allan o ardaloedd sydd wedi eu llygru yn ddrwg ac ni ddylai buchod gael bod mewn ardaloedd lle maent yn gorwedd, pori a loetran am fwy na phythefnos. Dylai rheoli'r potsio o gwmpas giatia, cafnau dŵr a phorthwyr fod yn arfer sy'n digwydd yn naturiol.

### 1.4.3 Lleihau defnydd diangen o wrthfotigau trwy ddefnyddio dull trin buchod cloff

Mae rheoli a thrin cloffni mewn buchod llaeth yn gofyn am sgorio eu symudedd yn gyson; dylid defnyddio hyn i gynhyrchu 'Rhestr Weithredu' i fuchod sydd agen craffu/ymyrraeth fanwl. Bydd hyn yn sicrhau bod triniaeth gynnar ac effeithiol yn cael ei rhoi. Dylai'r buchod hynny sydd â sgôr symudedd o 2 i 3 gael eu trin â gwrthfotig y gellir ei chwistrellu fel Ketofen, ar y cyd â chefnogaeth gan filfeddyg. Dylai fod yn arfer

cyffredin archwilio'r buchod trwy godi'r droed yn ofalus ac archwilio unrhyw friwiau sy'n bresennol. Rhaid i'r droed ddangos clwy neu sepsis dwfn cyn y dylid rhoi gwrthfotig trwy chwistrell. Os nad oes yr un o'r ddau yn bresennol, yna ni ddylid rhoi gwrthfotig trwy chwistrell i'r fuwch.

#### 1.4.4 Ystyried symud i therapi buchod sych dethol (SDCT) gyda selwyr tethi

Gall SDCT leihau amlygrwydd a difrifoldeb mastitis coliform (e-coli) o hyd at chwe gwaith yn y llaethiad nesaf, a allai fod yn arbediad sylweddol, ar gyfartaledd o £450 yr achos o ran colli llaeth a'r defnydd o wrthfotig.

Bydd defnyddio selwyr tethi mewnol o fudd i'r buchod trwy ddiogelu iechyd eu pyrsiau/cadeiriau gan hefyd leihau mastitis yn ystod y cyfnod sych ac yn y llaethiad cynnar. Ceir rhwystr naturiol sy'n diogelu, a elwir yn Lactoferrin mewn crynhoad dwys o hylifau buchod sych sy'n atal y pathogenau sy'n achosi mastitis rhag tyfu. Mae buchod mwy cynhyrchiol a hŷn yn fwy tebygol o gael budd o effeithiau seliwr tethi mewnol a dylai fod yn angenrheidiol wrth ddefnyddio SDCT.

Dangosodd prosiect Cyswllt Ffermio arall ar y pwnc hwn werth defnyddio SDCT yng Nghymru, ar [fferm Geraint Thomas, Tyreglwys, Llangennech](#). Dangosodd y prosiect hwn werth sychu'r buchod fel swydd benodol, nid yn ystod y patrwm godro. Rhaid i'r glendid fod yn hollol fanwl, h.y. rhaid ei wneud mewn parlwr glân ar ôl godro neu cyn hynny. Mae'n holl bwysig cadw at arferion glendid caeth, yn arbennig pan fyddwch yn defnyddio seliwr tethi yn unig<sup>3</sup>

## 2 Adolygiad o'r Prosiect

### 2.1 Nod y prosiect:

1. Addysgu am y defnydd o wrthfotigau: trwy ddysgu sut i leihau unrhyw ddosau diangen a sicrhau bod defnydd cyfrifol ar wrthfotigau ar ffermydd llaeth yng Nghymru
2. Casglu data am y pryniannau cyffuriau bob blwyddyn, bydd hyn yn amlygu ble a phryd y mae gwrthfotigau yn cael eu defnyddio ar y ffermydd penodol
3. Sicrhau bod meincnodi yn cael ei ddefnyddio i gael dewisiadau a strategaethau eraill i leihau'r defnydd o wrthfotigau
4. Addysgu am ddiogelu gwrthficrobau sydd mewn perygl i genedlaethau'r dyfodol allu eu defnyddio

### 2.2 Dull

Dan arweiniad y ffarmwraig Abi Reader, roedd 10 - 15 o ffermwyr yn rhan o'r prosiect. Gan weithio gyda milfeddygon, ynghyd â'r hwylusydd Jamie McCoy ac AHDB Dairy, rhestrwyd yr holl wrthfotigau a brynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, torrwyd hwy i lawr i'r misoedd pan gawsant eu prynu, a'u dosbarthu yn ôl cenhedlaeth y cyffur. Casglwyd gwybodaeth am y cynnyrch hefyd er mwyn gallu gwneud cyfrifiadau ar sail y pen, y kilo, y litr neu safonau arferol eraill y diwydiant.

---

<sup>3</sup> Farm Advisory Service. Heb ddyddiad. *Teat Sealant and Mastitis of Dry Period Origin*. Farm Advisory Service. Ar gael o: <https://www.fas.scot/news/teat-sealants-and-mastitis-of-dry-period-origin/>. (Agorwyd 17 Awst 2018)

Trosoglwyddwyd y wybodaeth hon wedyn i Owen Atkinson, ymgynghorydd annibynnol. Dadansoddodd Owen beth yr oedd y canlyniadau yn ei ddangos a chwblhau ymarfer meincnodi. Ar ôl i hwn gael ei gwblhau, rhoddwyd y wybodaeth wedyn yn y gyfrifiannell ADHB ar gyfer defnydd o wrthfotigau a chyfrifo faint o wrthfotig sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd i bob kilo/litr a gynhyrchir. Trwy ddefnyddio'r gyfrifiannell hon roeddem yn gallu casglu data yn gyson trwy'r rhaglen gyfan.

Daeth y grŵp at ei gilydd wedyn gyda'u hadroddiadau unigol a'u meincnodau i drafod a oedd dulliau gwahanol heblaw defnyddio gwrthfotig yn eu systemau eu hunain. Trefnwyd y sesiwn grŵp gan arbenigwyr ac roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ystyried defnyddio gwahanol fersiynau o ran cenedlaethau.

Yna cynigiwyd rhaglen benodol i bob ffermwr i symud ymlaen trwy glinig wyneb yn wyneb, gweithio gyda'i filfeddyg neu trwy fynd i sesiynau grŵp wedi eu targedu. Yna roedd yn bosibl gosod targedau ar gyfer ffermwyr unigol trwy weithio gyda'u milfeddygon i sicrhau bod eu defnydd o wrthficrobau ar eu ffermydd yn addas at y dyfodol.

#### **Pa wybodaeth a gofnodwyd?**

- Prynu gwrthfotig i 10 i 15 o ffermwyr
- Egluro'r math o wrthfotig neu'r genhedlaeth a roddwyd
- Pa wrthfotig sy'n cael ei ddefnyddio ar ffermydd a phryd y maent yn cael eu rhoi
- Data cynhyrchiant
- Ble a phryd yr oedd dewisiadau ar wahân i ddefnyddio gwrthfotig yn bosibl

### **2.3 Canlyniadau**

Rhoddwyd canlyniadau'r prosiect yn adrannau 1.2 ac 1.3 o'r adroddiad hwn.



## 2.4 Dadansoddiad SWOT

<p><b>CRYFDERAU</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dull cydweithredol o asesu ac ymdrin â defnydd o wrthficrobiaid ar ffermydd, gyda phroses ddysgu ar y cyd/cefnogaeth cymheiriaid yn gysylltiedig â hynny.</li> <li>• Llai o gostau milfeddygol a meddyginiaethau</li> <li>• Gwell iechyd a lles i wartheg</li> <li>• Llai o golledion</li> </ul>
<p><b>GWENDIDAU</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gall fod yn gostus gweithredu strategaethau atal, fel rhoi cerrig mewn adwyon/wrth gafnau dŵr all gael eu potsio yn ddrwg.</li> <li>• Gall fod yn gostus adnewyddu neu godi siediau wedi eu hawyru yn well</li> <li>• Cysylltir dwysau'r sector llaeth â lefelau uwch o ddefnyddio gwrthfotig, mae mwy o ddwysau yn debygol o gynyddu'r broblem hon</li> <li>• Efallai y bydd gofyn i ffermwyr nad ydynt yn cofnodi llaeth gasglu samplau unigol o fuchod a'u profi cyn y cyfnod sych os ydynt yn dymuno asesu statws pob buwch gan ddefnyddio adroddiadau cyfrif celloedd</li> </ul>
<p><b>CYFLEOEDD</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu Cynllun Rheoli Mastitis i helpu i ddatrys problemau</li> <li>• Gall rhagor o waith gyda milfeddygon helpu i leihau'r defnydd o wrthfotigau ymhellach</li> <li>• Mabwysiadu dulliau fel therapi dethol i fuchod sych (SDCT)</li> <li>• Defnyddio dulliau sy'n cynnwys seliwr mewnlol i dethi, boed hyn ar y cyd â SDCT neu beidio</li> <li>• Dynodi'r bacteria sy'n bresennol ar y fferm, fel y gellir targedu'r feddyginiaeth at y math penodol</li> <li>• Dylid lleihau'r defnydd o cephalosporin modern ar gyfer therapi buchod sych a dim ond ei ddefnyddio i drin anifeiliaid unigol sy'n wael pan na fydd unrhyw wrthfotig arall yn mynd i weithio</li> <li>• Gosod targedau ar gyfer lleihau'r defnydd o wrthfotig</li> <li>• Newid i system â phwyslais mawr ar les gyda mynediad at borfeydd i leihau'r angen am wrthfotig</li> <li>• Pecynnau profi – mae'r rhain yn galluogi'r ffermwyr i adnabod y pathogenau mewn 24 awr, gan roi cyfle iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a ydynt am ymyrryd gyda gwrthfotig neu beidio</li> <li>• Gwella iechyd a lles y gwartheg ymhellach i leihau'r angen am wrthfotigau</li> <li>• Rheoli pori i leihau'r risg y bydd afiechyd yn cael ei drosglwyddo</li> </ul>
<p><b>BYGYTHIADAU</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i or-ddefnyddio gwrthfotigau yn y Deyrnas Unedig ag oblygiadau perygl ar gyfer iechyd anifeiliaid a phobl.</li> <li>• Mae defnyddio dull ar sail tystiolaeth i ymdrin â'r defnydd o wrthfotigau yn dibynnu ar sgiliau a gallu'r ffermwr, ac efallai y bydd y gost yn uchel i gychwyn, a allai fod yn rhwystr iddynt newid.</li> </ul>

## 2.5 Cysoni a nodau strategol y sector

### 2.5.1 Amcanion a osodwyd gan Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru:

Mae'r prosiect yn cyflawni nifer o'r amcanion yn y Fframwaith, gan gyflawni ar gyfer y camau allweddol canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth ac addysg am wrthedd gwrthficrobaidd (AMR)
- Cynyddu'r hyrwyddo ar arferion hwsmonaeth dda a bioddiogelwch – pwysleisio bod atal yn well na gwella wedyn
- Hyrwyddo defnydd cyfrifol ar wrthfotigau
- Cefnogi gwaith i ddatblygu gwell casglu ar ddata a thystiolaeth yn ymwneud ag AMR ar lefel fferm i sicrhau bod sylfaen gadarn o dystiolaeth yn ei le i roi gwybodaeth i genedlaethau'r dyfodol

### 2.5.2 Cyd-fynd â blaenoriaethau'r Tasglu Targedau RUMA

Dynododd RUMA y canlynol fel meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt, y mae'r prosiect yn cyfrannu yn uniongyrchol atynt:

- Casglu data, gan gynnwys meddalwedd ar y fferm a'r ganolfan gydlynu data
- Cynlluniau iechyd y fuches
- Hyfforddi ffermwyr
- Hyfforddi milfeddygon
- Cadwyn gyflenwi
- Llwybrau atal a llwybrau gwahanol
- Cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus

Y targedau lleihau allweddol a amlinellwyd gan RUMA, y mae'r prosiect yn helpu'r sector i weithio tuag atynt yw:

Ffocws 1: Gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o'r Gwrthfotigau Hanfodol Bwysig Blaenoriaeth Uchaf

Ffocws 2: Rheolaeth ddethol ar fuchod sych

Ac fe wnaeth y prosiect gyfraniad mwy cyffredinol at fwy o ymwybyddiaeth yn y sector o:

Ffocws 3: Problemau niwmonia/resbiradol mewn stoc ifanc

Ffocws 4: Defnyddio data arolwg i adolygu'r defnydd o wrthfotig mewn bath traed

## 3 Effaith ar y diwydiant

### 3.1 Effaith ar fusnes unigol

Trafodir hyn yn adran 'safbwynt y ffermwyr am y prosiect' yr adroddiad yn Adran 1.2.

### 3.2 Effaith ar y diwydiant yn ehangach

Cyfeiriwch at yr adran 'y pwyntiau i'w cofio i'r diwydiant' o'r adroddiad yn Adran 1.3.

Mae cyfle hefyd i gysyniad y prosiect gael ei ailadrodd dros ffermydd da byw eraill yng Nghymru. Mae'r canlyniadau o'r holl ffermydd a gymerodd ran yn enghreifftiau ardderchog o sut y gall ffermwyr gynyddu eu gwybodaeth a gwella eu harferion rheoli, gan arwain at ddull mwy rhagweithiol o ddefnyddio gwrthfotigau wrth drin heintiadau fel mastitis.

Dylai'r ffermwyr hyn weld elw ar eu buddsoddiad yn y tymor hwy, trwy ostyngiad yn eu costau milfeddygol a meddyginiaethau, cynnydd yn y llaeth a gynhyrchir a gwell iechyd a lles yn gyffredinol. Dylai mabwysiadu dull o'r fath ar draws Cymru arwain at well effeithlonrwydd trwy wrthfotigau pan fydd eu hangen.

### 3.3 Effaith ar themâu trawsbynciol a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

#### 3.3.1 Newid Hinsawdd

Mae newidiadau i'r hinsawdd wedi dwyn patrymau tywydd cynhesach, gwlypach. Mae newid hinsawdd yn codi sialensiau cynhyrchu posibl i ni –trwy gynnydd disgwylidig mewn tywydd cynhesach a gwlypach a fydd yn cael effaith ar lefelau parasitiaid, cynhyrchu porthiant, a'r llwyth cyffredinol o facteria. Mae rheolaeth effeithiol ar wrthfotig yn chwarae rhan bwysig mewn cael y cynnyrch gorau o'n da byw. Os yw trin â gwrthfotigau yn digwydd yn gyffredinol a bod imiwnedd i'r gwrthfotigau hynny yn datblygu, bydd hyn yn arwain at aneffeithlonrwydd cyffredinol yn y system, gan arwain at gynnydd mewn colledion. Bydd gweithredu dulliau gwahanol heblaw defnyddio gwrthfotig yn unig fel cam i atal yn lleihau effaith heintiadau ar gyfraddau tyfu, gofynion porthiant a chynhyrchu llaeth.

#### 3.3.2 Iechyd a Lles Anifeiliaid (AHW)

Gall rhoi dos gyson o wrthfotig fel dull atal arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd y fuches wrth i imiwnedd afiechydon i fathau o wrthfotigau ddatblygu. Bydd defnyddio protocolau rheoli da i hyrwyddo lles ac iechyd anifeiliaid, gan drin â gwrthfotig pan fydd angen yn unig, yn arwain at lai o farwolaethau a gwell iechyd a lles yn y fuches gan arwain at gynnydd yn y llaeth a gynhyrchir hefyd.

#### 3.3.3 Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd mabwysiadu systemau rheoli a monitro yn lleihau'r ddibyniaeth ar wrthfotigau. Gyda ffermwyr a'r diwydiannau milfeddygol yn wynebu her gwrthedd os bydd yr arferion presennol yn parhau mae angen gweithredu strategaethau gwahanol. Bydd cael amrywiaeth o strategaethau gwahanol i ymdrin â phroblemau cyn iddynt ddod yn broblem fawr yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i reoli problemau iechyd fel mastitis a chloffni yn fwy effeithiol. Dylai lleihau'r sialensiau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i ddilyn neu i geisio gyrfa yn y diwydiant amaeth. Gallai symud ffermio ymlaen trwy ddefnyddio technoleg a gwell addysg ddenu pobl newydd i'r sector.

#### 3.3.4 Taclo Tlodi

Mae canolbwyntio ar wella iechyd a lles anifeiliaid ar y fferm yn offeryn rheoli da byw, gan leihau'r colledion cyffredinol ac arwain at fwy o gynhyrchiant. Bydd buddsoddi mewn arferion rheoli yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â milfeddygon a meddyginiaethau ar sail tymor canolig i hir. Mae gwella cynhyrchiant yn debygol o gael dylanwad ar broffidioldeb y fferm a thrwy hynny fod yn ffactor sy'n cael dylanwad ar daclo tlodi mewn amaethyddiaeth. Mae gan fusnesau sy'n rhedeg system gost effeithiol, gynaliadwy y potensial i gynyddu'r enillion trwy gynyddu'r incwm ar y fferm ac oddi arni.